# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3)-24-08 (p2): 15 Hydref 2008**

## Cyllideb ddrafft Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ar gyfer 2009-10

### Diben

1. Darparu papur tystiolaeth ar gyfer y Pwyllgor Menter a Dysgu ar gyllideb a blaenoriaethau Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (PADGOS) ar gyfer 2009-10 a blynyddoedd i ddod.

### Amseru

2.Cyhoeddwyd y gyllideb ddrafft ar 7 Hydref 2008.

### Cyllideb Ddrafft 2008

3.Mae Cyllideb Ddrafft 2008 yn darparu adnoddau ychwanegol ar gyfer 2009-10 a 2010-11 a gaiff eu buddsoddi i wella ymhellach y ddarpariaeth o wasanaethau i blant, addysg, dysgu gydol oes a sgiliau yng Nghymru. Yn Nhabl 1 ceir trosolwg o'r newidiadau i gyllideb neu 'brif grwp gwariant' PADGOS o ganlyniad i'r gyllideb ddrafft.

### Tabl 1: Prif Grwp Gwariant Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

£000

| | 1999-2000 | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 |
|---|---|---|---|---|
| Llinell sylfaen Terfyn Gwariant Adrannol | 760,037 | 1,777,869 | 1,847,018 | 1,874,045 |
| Newidiadau | | | 29,087 | 46,107 |
| **Cyfanswm wedi'i adolygu** | **760,037** | **1,777,869** | **1,876,105** | **1,920,152** |

4.Yn ychwanegol at godiadau y cytunwyd arnynt yn y cylch cyllideb blaenorol, ceir yn setliad cyllideb 2008 ar gyfer Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau gynnydd o dros £29 miliwn yn 2009-10 o'r llinell sylfaen bresennol, ac o £46 miliwn erbyn 2010-11 o'r llinell sylfaen bresennol. Golyga hyn fod cyfanswm cyffredinol ychwanegol o £98m ar gael i'r Prif Grwp Gwariant PADGOS yn 2009-10 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r manylion yn Atodiad 1.

5.Bydd cyllid ychwanegol a fydd ar gael trwy Ymarferiad Asesu Adnoddau Llywodraeth Cynulliad Cymru, a pheth ail-flaenoriaethu ar wariant, yn fy ngalluogi i ymestyn ein rhaglenni llwyddiannus a gwireddu agenda Cymru'n Un Llywodraeth Cynulliad Cymru. Dyma'r prif eitemau ychwanegol, gan gynnwys ail-flaenoriaethu, yn 2009-10, uwchlaw'r gyllideb linell sylfaen:£20m ychwanegol i gefnogi rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith£10.5m ar gyfer addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith, dosbarthiadau chwech ysgolion ac addysg barhaus oedolion, trwy'r gyllideb Darpariaeth i Ddysgwyr£3.76m o Gyfalaf i sicrhau y gall yr uno rhwng IGER a Phrifysgolion Aberystwyth a Bangor fynd rhagddoTua £1.5m i gefnogi'r agenda trawsnewid mewn Addysg a Hyfforddiant Ôl-16£350,000 ar gyfer Rhaglen Datblygu'r Gweithlu£335,000 i'r gyllideb Ymestyn Hawliau i gefnogi twf Cynghorau Ysgolion, a£350,000 i ddechrau rhoi argymhellion yr Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb ar waith.

6.Dylem ar y naill law ddathlu llwyddiannau addysg a dysgu gydol oes yng Nghymru dros y 10 mlynedd diwethaf, a bod yn realistig ar y llaw arall ynglyn â'r gwaith sydd eto i'w wneud.

7.Gwelwyd perfformiad da mewn llawer maes, gan gynnwys y canlynol:

Mae canlyniadau dros dro ar gyfer 2007/08 yn dangos yn achos disgyblion 15 oed i 57 y cant gyrraedd trothwy Lefel 2, ddau bwynt canran yn uwch nag yn 2006/07

Mae canlyniadau dros dro ar gyfer 2007/08 yn dangos yn achos disgyblion 17 oed i 94 y cant o'r rhai a oedd yn cofnodi'r hyn a oedd yn gyfwerth â 2 safon Uwch gyrraedd y trothwy Lefel 3, fel yn 2006/07

Mae'r data diweddaraf sydd ar gael, o 2007, yn dangos i lefelau cymwysterau'r gweithlu gynyddu o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gan barhau'r duedd a welwyd mewn blynyddoedd diweddar.

8.Mae'r meincnodi diweddar ar dwf cyfranogi mewn addysg gan oedolion 25-64 oed yn dangos bod Cymru yn y pedwerydd lle yn

Ewrop yn 2005. Ategir hyn gan ansawdd y ddarpariaeth sydd ar gael i ddysgwyr o oedolion yng Nghymru. Yn 2006/07, roedd 97% o'r rhaglenni a aseswyd mewn Sefydliadau Addysg Bellach yn radd 2 o leiaf (nodweddion da a dim diffygion pwysig) neu'n well na hynny.

9.Rydym yn dal i ehangu mynediad at addysg uwch yng Nghymru. Cododd y ganran o fyfyrwyr gradd gyntaf o dan 21 oed o gymdogaethau lle mae cyfranogiad isel, sy'n astudio'n amser-llawn mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru, o 8.9% yn 2005/06 i 10.2% yn 2006/07.

10.Digwyddodd y perfformiad gwell hwn tra oedd buddsoddiad y Llywodraeth yn cynyddu cryn dipyn. Er enghraifft, bu cynnydd yng ngwariant refeniw pob awdurdod lleol ar addysg o £1,385m yn 1998/99 i £2,213m yn 2006/07. Treblodd gwariant Cyfalaf awdurdodau lleol o £63.3m yn 1998/99 i £185.8m yn 2006/07.

11.Rydym yn cydnabod bod yn rhaid inni ddal i wella. Mae'r canlyniadau diweddar o'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) yn dangos ein bod ar y blaen i lawer o genhedloedd datblygedig yn y meysydd a asesir gan PISA, ond bod gennym ragor i'w wneud i wireddu ein dyhead i gyrraedd safonau'r goreuon yn gyson. Mae arolygiadau Estyn yn dangos bod llawer iawn o enghreifftiau o arferion rhagorol ar draws Cymru. Ein cenhadaeth yw sicrhau bod cyfleoedd dysgu rhagorol ar gael i bawb.

## Prif Grwp Gwariant - Pensaernïaeth

12.Mae'r Prif Grwp Gwariant Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn cynnwys pum adran, neu Faes Rhaglen Wariant. Dangosir isod gyfansymiau cyllideb ar gyfer pob un o flynyddoedd y gyllideb ddrafft.

Tabl 2: Dyraniadau lefel Maes Rhaglenni Gwariant (SPA)

£000

| | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 |
|---|---|---|---|
| SPA 1: Sylfeini a Chyfleoedd Llwyddiannus | 176,346 | 144,095 | 137,340 |
| SPA 2: Cyraeddiadau Dysgwyr | 123,411 | 156,961 | 175,160 |
| SPA 3: Sgiliau ar gyfer Cymru Ffyniannus | 908,483 | 986,736 | 1,010,984 |
| SPA 4: Mynediad a Chyflawni i bawb | 298,245 | 307,615 | 317,513 |
| SPA 5: Seilwaith ac ad-drefnu | 47,503 | 53,057 | 53,444 |
| **Cyfanswm Refeniw** | **1,553,988** | **1,648,464** | **1,694,441** |
| SPA 5: Seilwaith ac ad-drefnu | 223,881 | 227,641 | 225,711 |
| **Cyfanswm Cyfalaf** | **223,881** | **227,641** | **225,711** |
| **Cyfanswm Terfyn Gwariant Adrannol** | **1,777,869** | **1,876,105** | **1,920,152** |

13.Dangosir fy mlaenoriaethau ar gyfer cyllideb PADGOS a'r dyraniadau cyllid angenrheidiol isod.

## SPA 1: Sylfeini a Chyfleoedd Llwyddiannus

14. Yr amcan yma yw hyrwyddo lles pob plentyn a pherson ifanc; darparu cymorth fel eu bod yn cyflawni eu llawn addewid; a hyrwyddo budd addysg ffurfiol, dysgu anffurfiol a dysgu nad yw'n ffurfiol, ynghyd â hawliau plant a phobl ifanc.

15. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gwneud ymrwymiad sylweddol i wella gwasanaethau i blant a phobl ifanc anabl yng Nghymru. Y llynedd, sefydlais Grwp Gorchwyl Gweinidog i archwilio sut y gellid gwneud newidiadau gwirioneddol a hynny yn y tymor hwy ac yn gyflymach na hynny. Eisoes mae'r llywodraeth wedi:

·Darparu £225,000 o gyllid i ddarparu Mannau Newid er mwyn ehangu mynediad i leoliadau diwylliannol

·Darparu £2.2M ar gyfer deunyddiau Cymorth Cynnar dros y tair blynedd nesaf hyd 2001-2012

·Darparu £1.5m i gefnogi gwaith gweithwyr pontio allweddol dros y tair blynedd nesaf hyd 2011/2012

·Lansio'r Cynllun Gweithredu ar gyfer anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig. Dynodwyd cyllid ar gyfer y tair blynedd nesaf gyda chyllid y flwyddyn gyntaf yn aros yn £1.8m

·Dechrau ymgynghoriad ar y bwriad o roi rhyddhad ardrethi o 50 y cant i ddarparwyr gofal plant sydd ag eiddo â gwerth ardrethol o hyd at £12,000 y flwyddyn.

Er mwyn lleihau'r rhwystrau ychwanegol a wynebir gan blant anabl o ran cael at ddarpariaeth chwarae, rwy'n trefnu bod swm ychwanegol o £250,000 ar gael ar gyfer y tair blynedd nesaf er mwyn helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu hymrwymiadau o dan Ddeddf Gofal Plant 2006. At hynny, byddaf yn disgwyl i awdurdodau lleol neilltuo lleiafswm o £250,000 o adnoddau a ddyrannwyd eisoes at y diben hwn i greu cronfa o £500,000.

16. O ran y gyllideb Rhannu Gwybodaeth, mae'n debygol y gellir cyrraedd yr amcanion a osodwyd yn y maes hwn, i wella rheoli data a rhannu gwybodaeth trwy adeiladu ar sail modelau sydd eisoes yn bodoli neu ddatblygu system wybodaeth newydd, am lai o gost. Rwy'n aros i dderbyn adroddiad cwmpasu y gwanwyn nesaf cyn penderfynu beth fydd y ffordd ymlaen. Rwyf felly wedi gallu ail-flaenoriaethu £1.5m o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) Rhannu Gwybodaeth i gynorthwyo â phwysau mewn mannau eraill yn y Prif Grwp Gwariant.

17.Roedd Cymru’n Un yn cynnwys ymrwymiad i sefydlu ymchwiliad i faes ymddieithrio oddi wrth ddysgu ymhlith plant a phobl ifanc ac i edrych am dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio. Bellach mae'r Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb wedi cyflwyno adroddiad, ac rwyf wedi neilltuo £350,000 o arian newydd i ddechrau rhoi ei argymhellion ar waith.

18. Mae'r gyllideb Cymorth i Ymestyn Hawliau wedi ei chynyddu i gynorthwyo Hawliau ar Waith, ac yn arbennig yr agenda cyfranogi ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru.

19. Yn y Maes Rhaglen Wariant hwn hefyd bwriadwn gadw'r codiadau gwariant a roddwyd yn y llinellau sylfaen yn Ymarferiad Asesu Adnoddau 2007. Mae hyn yn cynnwys cynnydd yn llinell gyllideb Dechrau'n Deg o dros £1m. Mae'r Rhaglen Dechrau'n Deg yn darparu cymorth gan ymwelwyr iechyd â baich achosion isel, gofal iechyd o ansawdd rhagorol am ddim i blant dwy oed, rhaglenni rhiantu a mentrau sgiliau sylfaenol ar gyfer plant sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig.

SPA 2: Cyraeddiadau Dysgwyr

20.Mae'r SPA hwn yn cynnwys cyllid ar gyfer:gwell canlyniadau i ddysgwyr a gwella lles trwy gwricwlwm ysgol seiliedig ar sgiliau a threfniadau asesu cysylltiedigdiwygio cymwysterau pob oedran a datblygiadau i’r fframwaith credydauffocws ar effeithiolrwydd ysgolion, a datblygiad proffesiynol ymarferwyr.

21. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn rhaglen wirioneddol drawsnewidiol a fydd yn sicrhau bod plant yn cael y cymorth gorau posibl yn ystod blynyddoedd cynnar allweddol eu haddysg. Mae swm ychwanegol o £20m yn 2009-10 a £40m yn 2010-11 wedi ei ddyrannu i'r Cyfnod Sylfaen, fel bod cyllid (Llinell Refeniw'r Blynyddoedd Cynnar) yn cynyddu o £24.957m yn y gyllideb ddiwethaf i £59.487m yn 2009-10 a £83.351m yn 2010-11. Bydd yr arian ychwanegol hwn yn sicrhau bod y rhaglen yn cael ei rhoi ar waith yn statudol fesul cam i blant 3-5 oed o fis Medi 2010.

22. Rhan bwysig arall o'n strategaeth ar gyfer gwella safonau a chanlyniadau mewn addysg yw'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion. Sylfaen y Fframwaith yw egwyddorion diwygio ar dair lefel – hynny yw, y Llywodraeth, awdurdodau lleol ac ysgolion yn cydweithio i sicrhau newid systemau. Diben y prosiect hwn yw datblygu fframwaith sy'n gosod allan y prif nodweddion sydd eu hangen i wella canlyniadau dysgu mewn ysgolion ledled Cymru. Mae wedi'i seilio ar gydweithio rhwng y gymuned addysg (ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth y Cynulliad) i sefydlu cymunedau o ymarfer mewn ac ar draws ysgolion er mwyn sefydlu'r fframwaith trwy ddefnyddio ‘Swyddogion cyswllt’; a nodi'r cyfraniad y gall Awdurdodau Lleol ei wneud tuag at roi'r Fframwaith ar waith yn effeithiol. Rwyf wedi sicrhau cynaliadwyedd y rhaglen hon trwy gynyddu £600,000 ar y gyllideb ddangosol ar gyfer 2010-11 hyd £1.9m.

23.Rwyf wedi cynyddu'r cyllid yn y Gwariant Cwricwlwm a Chymwysterau Cyfredol.

Bydd £720,000 yn 2009-10 a £360,000 yn 2010-11 yn hyrwyddo gweithredu a rheoli system gymwysterau seiliedig ar gredydau, ar y cyd â Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Daw swm ychwanegol o £500,000 â chyllid Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC) i £9.050m yn 2009-10, a £10.650m yn 2010-11. Bydd hynny'n hwyluso parhad yr ehangu, gan alluogi rhoi'r CBC ar waith fesul cam ar y lefelau Uwch a Chanolradd mewn darpariaeth ôl-16, CBC lefel Sylfaen mewn darpariaeth 14-19 a'r lefelau Sylfaen a Chanolradd mewn darpariaeth 14-16. Bydd hynny'n golygu y bydd niferoedd y myfyrwyr CBC yn codi i 35,000 ym mlwyddyn academaidd 2009/10, 48,000 yn 2010/11 a 58,000 yn 2011/12.

Rhagwelir y bydd creu Ofqual, y rheoleiddiwr cymwysterau annibynnol newydd yn Lloegr, yn creu costau ychwanegol o ryw £400,000 wrth inni orfod talu cost economaidd lawn gwaith rheoleiddio ar y cyd yn hytrach na rhoi cymorth â chostau ymylol a chefnogaeth mewn da trwy arbenigedd yn y cwricwlwm a chymwysterau.

Ychwanegir swm o £330,000 at y llinell hon i dalu am gynnydd mewn costau cysylltiedig â newidiadau yn y dull o dalu am ddatblygu Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol.

24. Mae'r ychwanegiadau at y llinell Cymorth i Wella Safonau yn cynnwys swm ychwanegol o £130,000 i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer ein hymrwymiad Cymru’n Un, ynghyd â throsglwyddiadau technegol eraill rhwng llinellau gwariant yn y gyllideb.

25. Mae angen llai o leoedd Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA) arnom fel bod gwell cydbwysedd â'r niferoedd sy'n gallu sicrhau swyddi yng Nghymru neu mewn mannau eraill. Bu'n anodd i athrawon sydd newydd gymhwyso sicrhau swyddi parhaol mewn rhai ardaloedd, yn arbennig ar y lefel gynradd; a bu niferoedd disgyblion yn disgyn. Mae Cynllun Newid HCA Llywodraeth Cynulliad Cymru yn nodi sut y bwriadwn fwrw ymlaen â newidiadau yn y ddarpariaeth HCA, gan gynnwys lleihad yn niferoedd HCA, ad-drefnu'r darparwyr HCA a datblygu Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon i Gymru er mwyn helpu i osod targedau manylach ar gyfer niferoedd HCA yma y dyfodol. Rwyf wedi gwneud dyraniad ychwanegol o £1.485m yn 2009-10 i gefnogi'r broses hon.

## SPA 3: Sgiliau ar gyfer Cymru Ffyniannus

26. Mae'r SPA hwn yn cynnwys cyllid ar gyfer:arwain y cyfraniad y mae'r gyfundrefn addysg a hyfforddiant ôl-16 yn ei wneud tuag at sicrhau Cymru sydd wedi'i haddysgu'n dda, sydd â sgiliau da a chyflogaeth uchel, trwy ddynodi anghenion cyflogwyr, dysgwyr a chymunedau am wybodaeth a sgiliau a blaenoriaethu'r anghenion hynny; hybu sefydliadau addysg a hyfforddiant i fod yn hyblyg, i fod o ansawdd rhagorol, ac i ymateb i anghenion cenedlaethol a lleol.

27. Mae'r llinell gyllideb Darpariaeth i Ddysgwyr yn darparu cyllid prif ffrwd ar gyfer rhaglenni dysgu ôl-16 a gyflenwir gan ddosbarthiadau chwech ysgolion, colegau addysg bellach, prentisiaethau, cymorth i bobl ennill sgiliau cyflogadwyedd i'w helpu yn ôl i'r gwaith, cymorth â sgiliau i fusnesau a dysgu cymunedol i oedolion. Bydd nifer o ddatblygiadau'n deillio o Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru gan gynnwys y Gronfa Blaenoriaethau Sector (a fydd yn galluogi APADGOS i weithio ar gyd-flaenoriaethau gydag Adran yr Economi a Thrafnidiaeth), a mwy o brentisiaethau yng Nghymru.

28. Gwyddom fod newidiadau demograffig yn dechrau effeithio ar y sector hwn. Gan gymryd y bydd cyfran gyfranogi gyson, mae ein hamcangyfrifon yn dangos y bydd tueddiadau demograffig yn y grwp oedran 16-18 yn unig yn golygu y bydd erbyn 2016 3,800 yn llai o ddisgyblion ysgol, 5,000 yn llai mewn addysg bellach a 1,100 yn llai mewn dysgu seiliedig ar waith. Mae hynny, ochr yn ochr â'r cyfle a ddynodwyd yn yr Adolygiad o Genhadaeth a Phwrpas Addysg Bellach yng Nghymru, a arweiniwyd gan yr Athro Syr Adrian Webb, i gynyddu effeithlonrwydd yn y sector ôl-16 trwy integreiddio gwaith darparwyr, wedi fy arwain i gynyddu ein cyllid ar gyfer yr agenda cydweithredu. Ychwanegir rhyw £1.5m at y £2.5m sydd eisoes ar gael yn SPA 5 (y BEL Buddsoddi Strategol) i gynorthwyo rhoi'r cynigion Trawsnewid a lansiwyd yn ddiweddar gan y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau ar waith.

## SPA 4 :Mynediad a Chyflawni i Bawb

29. Yn y Maes Rhaglen Wariant hwn mae nifer o gyllidebau sy'n hyrwyddo mynediad at ddysgu fel Anghenion Dysgu Ychwanegol, Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig, Grant Addysgu Teithwyr a Chymorth i Fyfyrwyr.

30. Bu nifer o addasiadau technegol i ddwyn y gyllideb sy'n cael ei harwain gan alw a'r gyllideb weinyddu at ei gilydd yn un Llinell Wariant yn y Gyllideb i ganiatáu ymateb mwy effeithlon ac effeithiol i alw cyfnewidiol. At hynny, mae dadansoddiad o batrymau gwario wedi caniatáu i mi ail-flaenoriaethu peth o'r gwariant hwn i ateb y galw sy'n dod i'r amlwg yn SPA 3 ac arbennig Darpariaeth i Ddysgwyr yn 2009-10.

31. Rwyf wedi sefydlu Adolygiad o Gyflenwi Cyllid Myfyrwyr Addysg Uwch sydd wedi cwblhau cam ymchwil ac ymgynghori'r prosiect. Mae rhanddeiliaid mewnol ac allanol a phartneriaid cyflenwi wedi cael gwybodaeth am gynnydd yn gyson. Bydd cam cyntaf yr Adolygiad yn edrych ar drefniadau cyllid i fyfyrwyr sydd fel rheol yn byw yng Nghymru.

32. Mae aelodau'r grwp wedi cytuno y byddai angen i unrhyw gyfundrefn gyllid i fyfyriwr:

gael ei hystyried yn erbyn y blaenoriaethau strategol (er enghraifft, ehangu mynediad) a amlinellir yn strategaethau Llywodraeth y Cynulliad ac mewn adolygiadau annibynnol perthnasol. Byddai sefydlu pa mor effeithiol yr oedd cyllid myfyrwyr, a pha mor effeithiol y gallai fod, o ran cyfrannu at y blaenoriaethau hyn, yn allweddol

ystyried gwahanol lwybrau mynediad at astudio a gwahanol ffyrdd o astudio

lleihau'r cymhlethdod i fyfyrwyr ac argymell cyfundrefn dryloyw a chynaliadwy, a

bod yn effro i natur '"Cymru a Lloegr" y farchnad AU a phwysigrwydd myfyrwyr o Loegr i'r sector AU yng Nghymru.

33. Bydd ail gam yr Adolygiad yn edrych ar ddiben, cenhadaeth, swyddogaeth a chyllido addysg uwch yng Nghymru, a bydd yn dechrau ym mis Hydref ar ôl cwblhau cam 1.

34. Mae llinell gyllideb Ymgeisio yn Uwch yn cynyddu er mwyn ehangu mynediad ac rydym yn gobeithio datblygu cyfres newydd o Raddau Sylfaen.

35. Cynhwysir £250,000 yn y gyllideb ar gyfer ein hymrwymiad yn Cymru'n Un i ddatblygu Strategaeth Addysg Gyfrwng Cymraeg Genedlaethol.

## SPA 5: Seilwaith ac ad-drefnu

36. Mae'r Maes Rhaglen Wariant hwn yn dwyn ynghyd gyllidebau ar gyfer cynnal, gwella a datblygu'r seilwaith adeiladu ym mhob sector, ond hefyd y cyllid i gynorthwyo gwell cydweithredu a lle bo angen ad-drefnu'r seilwaith hwnnw.

37. Bu modd i mi ddyrannu cyllid ychwanegol i'r BEL Cyfalaf Ymgeisio yn Uwch ar gyfer y Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd (IGER), sef £3.76m yn 2009-10 a £830,000 yn 2010-11. Bydd y prosiect cyffrous hwn yn creu màs effeithiol mewn gallu a seilwaith

ymchwil i ffurfio canolfan ragoriaeth i Gymru a'r Deyrnas Unedig ym maes y gwyddorau biolegol, amgylcheddol a gwlad, yn arbennig mewn perthynas â defnydd cynaliadwy o dir, cynhyrchu bwyd, iechyd a bio-ynni. Mae fy Adran, ynghyd ag Adran yr Economi a Thrafnidiaeth, a'r Adran Materion Gwledig a Threftadaeth, yn arwain y gwaith o gydgysylltu'r datblygiad trawsffiniol hwn, a ddatblygwyd ar y cyd rhwng Prifysgolion Aberystwyth a Bangor a CYBGB, fel Adran Arweiniol ar Addysg Uwch.

38. Mae ailwampio'r Adran a chreu Uned yr Iaith Gymraeg wedi golygu addasu. Rwyf wedi trosglwyddo £1.9m o'r BEL Buddsoddi Strategol yn SPA 5 i'r BEL Cwricwlwm a Chymwysterau yn SPA 2 i adlewyrchu'r strwythur rheoli newydd.

### Cynlluniau Buddsoddi Cyfalaf Strategol

39. Mae APADGOS wedi datblygu nifer o geisiadau i'w hystyried gan Fwrdd Buddsoddi Cyfalaf Strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Byddai'r darpar brosiectau yn gwneud cyfraniadau arwyddocaol a chyflym at: raglenni adfywio, cyflymu ad-drefnu a chydweithredu mewn darpariaeth addysgol ac o ganlyniad gwella cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus; a gwella gwasanaethau cymunedol.

40. Mae APADGOS wedi gweithio gydag adrannau polisi eraill i sicrhau bod darpar brosiectau yn amlygu cydweithredu ar draws adrannau a bod cyfalaf yn cael ei gynyddu a'i flaenoriaethu gan sicrhau amryw o ganlyniadau. Er enghraifft, mae APADGOS wedi cydweithio'n agos â'r Adran Economi a Thrafnidiaeth a hynny mewn perthynas ag adfywio ac ymdrin â'r agenda sgiliau, ac â'r Adran Materion Gwledig a Threftadaeth i ddarparu gwasanaethau chwaraeon, hamdden a chymunedol.